# RHAGOLWG

## Gellir dod o hyd i ddogfennau ategol perthnasol dan "Busnes y Cynulliad" "Dogfennau a Osodwyd" sydd, fel arfer, yn cael eu gosod ar y wefan 3 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod llawn perthnasol.

## [Hysbyswyd gan y Trefnydd mewn datganiad i'r cynulliad 5 Gorffennaf 2005

**Dydd Mawrth 8 Gorffennaf a dydd Mercher 9 Gorffennaf 2005**

**TORIAD YR HAF 18 GORFFENNAF- 18 MEDI**

**Dydd Mawrth 20 Medi a dydd Mercher 21 Medi 2005**

**Dydd Mawrth 27 Medi a dydd Mercher 28 Medi 2005**

**Dydd Mawrth 12 Gorffennaf 2005**

- **Motion to agree a temporary revision to Standing orders to allow substitutions to the Advisory Committee on School Funding (1 munud)**
- **Cynnig i newid y Rheolau Sefydlog (1 funud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Pwyllgor ar Ysmygu mewn Mannau Cyhoeddus**
- **Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 3) 2005 (10 munud)**

  Mae'r Gorchymyn hwn yn dod ag adrannau 54(1) - (5) ac Adran 54A yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i rym. Y rhain yw'r unig ddarpariaethau nad ydynt eisoes mewn grym.

  > Mae Adran 54 yn gwahardd datgelu gwybodaeth a gasglwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol (neu gan berson sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol neu archwilydd sydd wedi'i benodi) yn ystod archwiliad llywodraeth leol a gwaith archwilio a wnaed o dan

y Ddeddf neu ddarpariaethau Gwerth Gorau "Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella" Deddf Llywodraeth Leol 1999. Nid yw Adran 54 yn atal yr Archwilydd Cyffredinol, na'r archwilydd sydd wedi'i benodi rhag datgelu unrhyw wybodaeth angenrheidiol ar gyfer arfer eu swyddogaethau yn briodol.

Mae Adran 54A yn diwygio adran 54 a chafodd ei mewnosod yn y Ddeddf gan Orchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Llacio'r Cyfyngiad ar Ddatgelu) 2005 (y Gorchymyn Diwygio) a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan adran 54(6) a (7) o'r Ddeddf ar 23 Mawrth 2005. Daeth adran 54(6) a (7) i rym drwy'r Gorchymyn Cychwyn Cyntaf (Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Cychwyn Rhif 1) 2005), a ddaeth i rym ar 31 Ionawr 2005 i alluogi gwneud y Gorchymyn hwnnw.

Mae'r Gorchymyn diwygiedig yn ailadrodd, o ran y rhai sy'n berthnasol i Gymru, y diwygiadau i'r darpariaethau datgelu sy'n mynd law yn llaw â'r rhain yn adran 49 Deddf Comisiwn Archwilio 1998. Daeth y rhain i rym mewn perthynas â Lloegr drwy ddiwygio gorchymyn a wnaed o dan adran 75 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae adran 54A yn gwrthdroi'r drefn gyffredinol yn ymwneud â datgelu gwybodaeth yn adran 54 ar gyfer "awdurdodau cyhoeddus" a phersonau sy'n gweithredu ar eu rhan at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.Ymhlith yr awdurdodau cyhoeddus hynny y mae Archwilydd Cyffredinol Cymru; cyrff llywodraeth leol Cymru; a phersonau sy'n gweithredu ar eu rhan.

Nid oedd cwmpas y gorchmynion diwygiedig ar gyfer Cymru a Lloegr yn caniatáu ar gyfer llacio'r cyfyngiad ar ddatgelu i gynnwys yr archwilwyr a benodwyd gan gyrff llywodraeth leol (sydd â swyddogaethau ar wahân i rai Archwilydd Cyffredinol Cymru), na sefydliadau neu bersonau eraill sy'n syrthio y tu allan i'r diffiniad o awdurdodau cyhoeddus at ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i lacio'r cyfyngiad ymhellach i gynnwys archwilwyr sydd wedi'u penodi a chyrff eraill cyn gynted ag y bydd cyfle deddfwriaethol i wneud hynny.

***Cynnig i drafod y 3 eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân (30 munud):***

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Symud ar draws Ffin) (Cymru) 2005.**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1946/2003, sy'n ymwneud â symud organebau a addaswyd yn enetig (GMOs) (allforion y tu allan i'r UE) ar draws ffin. Mae Rheoliad 1946/2003 yn rhoi ar waith ar lefel y Gymuned elfennau o Brotocol Cartagena ar Fioddiogelwch, i ddarparu amddiffyniad digonol wrth drin a throsglwyddo GMOs drwy sefydlu system gyffredin ar gyfer hysbysu a darparu gwybodaeth ar gyfer allforio GMOs i wledydd y tu allan i'r UE. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod Rheoliad 1946/2003 yn dod i rym yng Nghymru. Mae'r Protocol Cartagena ar Fioddiogelwch yn system fasnachu ryngwladol sy'n rheoli'r broses o drosglwyddo GMOs byw ac yn caniatáu i wledydd wrthod neu dderbyn mewnforion yn seiliedig ar statws GM y gwledydd sydd wedi llofnodi neu gymeradwyo'r protocol.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru 2005.**

Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Organebau a Addaswyd yn Enetig (Eu Gollwng yn Fwriadol) (Cymru) 2002 i adlewyrchu'r diwygiadau canlyniadol a wnaed i Gyfarwyddeb 2001/18/EC, ar ollwng organeddau a addaswyd yn enetig yn fwriadol i'r amgylchedd gan Reoliad newydd Cyngor yr UE ar fwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau a Addaswyd yn Enetig (Olrhain a Labelu) (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau hyn yn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad (EC) Rhif 1830/2003 sy'n ymwneud ag olrhain a labelu organebau a addaswyd yn enetig (GMOs) ac olrhain bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhyrchwyd o GMOs. Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i arolygwyr a awdurdodwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fynd i mewn i eiddo i gynnal profion, i gymryd samplau a/neu i ofyn am wybodaeth. Pan fo arolygwr yn fodlon fod cynnyrch a wnaed o GMOs neu sy'n cynnwys GMOs neu fwyd neu borthiant a gynhyrchwyd o GMOs heb eu labelu yn unol â Rheoliad (EC) 1830/2003, mae gan yr arolygwr bwer i gyflwyno hysbysiad yn tynnu'r cynnyrch yn ôl neu'n gwahardd i'r cynnyrch gael ei symud hyd nes bod y broses labelu wedi'i chywiro. Mae'r Rheoliad hefyd yn darparu ar gyfer tramgwyddau troseddol a chosbau sy'n ymwneud â thorri gofynion Rheoliad (EC) 1830/2003 ac â rhwystro arolygwyr. Hefyd, amlinellir yr amddiffyniadau i'r tramgwyddau yn y Rheoliadau.

- **Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) 2005 (rhif 2) (10 munud)**

  Bwriad effaith yr offeryn hwn yw sicrhau mai dim ond i bresgripsiynau a ysgrifennir ar ffurflenni presgripsiwn yng Nghymru y bydd codi ffi llai yn gymwys (ac yn y pendraw y bydd pob claf wedi'i eithrio rhag talu ffioedd presgripsiwn). Bydd hefyd yn caniatáu ar gyfer gostwng ymhellach y ffi am bresgripsiwn o £4 i £3 ym mis Ebrill 2006. Bydd y gost o dalu tystysgrifau blynyddol ymlaen llaw yn gostwng o £57.46 i £43.09, a bydd cost pedwar tystysgrif misol yn gostwng o £20.93 i £15.69**.**

  Bydd y Gorchymyn hefyd yn caniatáu i gleifion sydd wedi'u heithrio rhag talu ffioedd ar sail oedran, ac y mae eu hoedran wedi'i argraffu ar y ffurflen bresgripsiwn, beidio â llofnodi'r datganiad ar y tu cefn er mwyn bod yn gymwys i gael eu heithrio. Yn ogystal, bydd yn caniatáu i garcharorion gael eu hychwanegu at restr y cleifion sydd wedi'u heithrio rhag talu ffioedd presgripsiwn pan fydd y broses gomisiynu'n cael ei datganoli ac y byddant yn dod yn gleifion y GIG o fis Ebrill 2006 ymlaen.

- **Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) The Education (Review of Staffing Structure (Wales) Regulations 2005 (10 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Cynllun y Sector Gwirfoddol (60 munud)**

_

**Dydd Mercher 13 Gorffennaf 2005**

- **Cwestiynau i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (30 munud)**
- **Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (30 munud)**
- **Cwestiynau i Jane Hutt, y Trefnydd, yn unol â Rheol Sefydlog 6.28 ac fel y'i nodwyd yn y rhestr o gyfrifoldebau Gweinidogion (30 munud)**
- **Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Cyfraniad Cymru i Rhown Derfyn ar Dlodi (30 munud)**
- **Debate on the WDA (45 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio (45 munud)**
- **Y Ddadl Fer (30 munud)**

_

**Dydd Mawrth 20 Medi**

- **Cynnig i ethol aelodau i Gyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol (1 funud)**
- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**

- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Cynnig i gymeradwyo Grantiau Adnewyddu Tai (Diwygio) (Cymru) 2005 (15 munud)**

  Diben y Rheoliadau hyn yw cyflwyno newid i Reoliadau Grantiau Tai 1996, er mwyn diwygio'r prawf modd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl i ddiddymu'r prawf adnoddau ar gyfer rhieni plant anabl. Mae'r prawf modd yn pennu p'un a fydd yn rhaid i rieni plant anabl wneud cyfraniadau tuag at gost gwaith pan fyddant yn gwneud cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl**.**

- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Meinweoedd Dynol 2004 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2005 (60 munud)**
- **Cynnig i ystyried adroddiad yr astudiaeth ddichonoldeb ar gynnig Christine Chapman ar Reol Sefydlog 31 a drafodwyd ar 14 Mehefin (60 munud)**

**Dydd Mercher 21 Medi**

- **Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (20 munud)**
- **Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (30 munud)**
- **Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 i Brif Weinidog Cymru (15 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Blynyddol Cynllun Partneriaeth Cymru (45 munud)**
- **Dadl ar Adroddiad Blynydd Datblygu Cynaliadwy 2005 (60 munud)**
- **Y Ddadl Fer (30 munud)**

**Dydd Mawrth 27 Medi**

- **Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru (45 munud)**
- **Datganiad Busnes (10 munud)**
- **Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar Lwybrau Dysgu (30 munud)**
- **Slot wedi'i gadw ar gyfer is-ddeddfwriaeth (30 munud)**
- **Dadl wedi'i henwebu gan y Blaid Geidwadol (45 munud)**

**Dydd Mercher 28 Medi**

- **Cwestiynau i Brian Gibbons, y Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (30 munud)**
- **Cwestiynau i Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (30 munud)**
- **Cwestiynau i Bwyllgor y Ty (5 munud)**
- **Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad y Gweithgor Gofal Plant (60 munud)**
- **Y ddadl fer (30 munud)**